| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 20 Mawrth, 2025 |
| **TEITL** | Toiledau Cyhoeddus |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adroddiad Cynnydd ar Strategaeth Toiledau Lleol Gwynedd |
| **AWDUR** | Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd June Jones |

## 1. Pam fod angen ei graffu

1.1 Mae gan y Cyngor 61 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd sydd, o ran niferoedd, y ddarpariaeth uchaf yng Nghymru. Mae rhain yn cael eu rheoli gan yr Adran Priffyrdd Peirianneg ac YGC. Yr ydym hefyd a 39 o doiledau ar gael i'r cyhoedd ddefnyddio fel rhan o'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio toiledau mewn amryw o sefydliadau lleol yn yr oriau y maent ar agor.

1.2 Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ôl yn 2017. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yma oedd sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran darpariaeth toiledau cyhoeddus. Yn unol â'r cyfrifoldebau yma, lluniwyd Strategaeth 'Toiledau Lleol Gwynedd' ym mis Mai 2019. Mae'n amserol i adolygu'r Strategaeth bresennol gan asesu ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion ein Cymunedau erbyn heddiw.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu

- Y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus
- Beth sydd wedi ei wneud i wella delwedd y toiledau cyhoeddus a chyfarch disgwyliadau defnyddwyr
- Pa ffynonellau ariannu sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth
- Beth yw'r amserlen ddiweddaraf o ran cyflwyno technoleg talu di-gyffwrdd
- Beth yw'r sefyllfa o ran incwm.

## 3. Crynodeb a’r Materion Allweddol

3.1 Fel a nodir uchod, bu i’r strategaeth gyfredol ‘Toiledau Lleol Gwynedd’ gael ei fabwysiadu gan y Cabinet yn ôl ym mis Mai, 2019. Prif nod y strategaeth oedd/yw:

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn dda;
- Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o leoliad y toiledau drwy ddefnyddio arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad y cyfleusterau yn ôl y galw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Craffwyd rheolaeth y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023 ac yma cyflwynir diweddariad ar ein gwaith gan gyfarch y materion a drafodwyd yn y Pwyllgor uchod.

4.2 Dros y flwyddyn diwethaf yr ydym wedi llwyddo denu grantiau ar gyfer gwella delwedd a safon y toiledau canlynol :- Y Maes Pwllheli, Y Cei Aberdyfi, ac Y Maes Criccieth.

4.3 Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymgeisio am gyfleodd tebyg er adeiladu ar lwyddiant diweddar o wella y ddarpariaeth.

4.4. Mae’r gwasanaeth hefyd yn gwneud defnydd gorau o’r gyllideb refeniw sydd ar gael. Fodd bynnag gyda stoc hen o adeiladau a phwysau ar adegau oherwydd y lefel o fandaliaeth, prif ddefnydd yr arian yma yw cyfarch gofynion gwaith cynnal a chadw y toiledau.

4.5. Mae’r Cynllun Grant yn hynod o boblogaidd gan weld rhestr lawn o fusnesau yn cymryd rhan gyda rhestr aros fel daw unrhyw newid.

4.6. Mae’r gwasanaeth yn monitro’r gyfundrefn uchod gan sicrhau bod y busnesau yn arddangos arwydd bod eu toiled ar gael i'r cyhoedd. Gwneir hyn drwy ymweliad blynyddol i'r busnes a thrafod gyda’r perchennog. Mae’r gofyn yma yn rhan o ofyn y grant. Ar y cyfan mae llwyddiant i'r cynllun yma gyda ond enghreifftiau bychan iawn lle mae angen atgoffa busnesau o ofynion eu ymrwymiad.

4.7 Mae safle We’r Cyngor yn nodi’r busnesau sydd yn rhan o’r cynllun uchod ac yn cael ei ddiweddaru gyda unrhyw newid. Cydnabyddir y bod cyfleon i wella ar hyrwyddo y busnesau sydd ar restr Gwynedd a byddwn yn rhoi trefn yn ei le i wneud hyn cyn y tymor gwyliau Haf eleni.

4.8 Mae y ddarpariaeth glanhau toiledau yn rhan o'r gwasanaeth erbyn hyn ac ar y cyfan mae'r safon yn foddhaol. Cydnabyddir bod cyfleon i wella ac mae'r gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau glanhau ynghyd ac amseroedd agor a cau ar hyn o bryd.

4.9 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, yr ydym a phartneriaeth gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref erbyn hyn, sydd yn hanfodol i redeg y gwasanaeth cyfredol toiledau cyhoeddus . Mae'r cyfraniad cyllidol blynyddol yn hanfodol a daw swm o £227,450.00 drwy'r drefn partneriaethu sydd yn gyfuniad o gyfraniadau at gyfarch cost blynyddol neu dymhorol y toiled. Bydd angen adolygu'r cyfraniad hwn eleni gan nad oes chwyddiant wedi ei godi ar y cyfraniad ers cyflwyno'r cynllun.

4.10 Mae 5 toiled gyda threfn codi tal am eu defnydd. Lleoliadau y toiledau hyn yw :- Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog a Dolgellau. Gan weld y drysau talu yma wedi dod at ddiwedd eu oes, cyflwynodd y gwasanaeth fid er adnewyddu'r drysau gan edrych i osod drysau talu modern lle mae modd dewis y ffordd o dalu unai drwy gerdyn neu arian parod.

4.11 Bu ein bid am arian lwyddo a mae'r gwasanaeth erbyn hyn wedi penderfynu ar y math o ddrws sydd i'w osod. Sut bynnag, oherwydd pwysau gwaith mae llithriad wedi bod yn y rhaglen gan weld y drysau newydd cyntaf yn cael eu gosod yn doiled Pwllheli gan anelu cael rhain yn eu lle cyn y Pasg.

4.12 Bydd y gwasanaeth yn monitro'r defnydd o'r drysau newydd wedi cwblhau gosod yr holl ddrysau gan gyflwyno adroddiad yn gynnar yn y flwyddyn newydd ar lwyddiant neu fethiannau er ystyried ymestyn i doiledau eraill o fewn y Sir.

4.13 Fe weler yn Atodiad 1 diweddariad i'r Strategaeth Toiledau Lleol gyda gwybodaeth gyflawn am y stoc Toiledau Cyhoeddus. Mae'r diweddariad i'r Strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu sydd yn cyfarch ein nod am y blynyddoedd nesaf i gadw'r gofyn o sicrhau safon a darpariaeth toiledau cyhoeddus.

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 20215

Gwella delwedd yr ased a chyfarch disgwyliadau defnyddwyr – Mae'n bwysig nodi bod ein cyfleusterau cyhoeddus yn cyfrannu tuag at nod llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef 'Cymru o gymunedau cydlynus' sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel.

## 6. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu adolygu a'u defnyddio yn ystod unrhyw angen pellach i ymgynghori / ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol os bydd ei angen.

## 7. Camau Nesaf

Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu i'r adroddiad cynnydd ar weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Gwynedd, gan gyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn ddilynol.

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Gwynedd
Atodiad 1a - Rhestr Toiledau Cyhoeddus